



Cyngor Sir y Fflint

Adroddiad Blynyddol yr

Iaith Gymraeg

Ebrill 2019 - Mawrth 2020

Gallwn ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau amgen neu yn eich iaith eich hun

Tîm Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol

Gwasanaethau Corfforaethol

Neuadd y Sir

Yr Wyddgrug

Sir y Fflint

CH7 6NG

Rhif ffôn: ☎ 01352 702131

E-bost: ✉ busnescofforaethol@siryfflint.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg

Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

2019/2020

Adroddiad Monitro 2019 - 2020

Crynodeb Gweithredol

1.	Cyflwyniad	4
2.	Cydymffurfiaeth â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	5
3.	Cydymffurfiaeth â'r Safonau Llundio Polisiau	6
4.	Cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredu	6
5.	Hyfforddiant	10
6.	Cwynion	12
7.	Hyrwyddo'r Gymraeg	13
8.	Camau i'r Dyfodol	15

Atodiadau

Atodiad 1 Arfer Hunanasesu'r Sgiliau'r Gymraeg

Atodiad 2 Arfer Da

Crynodeb Gweithredol

Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar 30 Mawrth 2016 ac roedd yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio gyda'r 146 Safon erbyn y dyddiad hwn. Daeth Safonau pellach i rym yn ddiweddarach gan olygu cyfanswm o 171 i gyd. Mae nifer o'r Safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor yn adlewyrchu'r ymrwymïadau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol a'n harfer presennol a'n hymrwymiad i'r Gymraeg.

Dyma'r pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg yn dilyn gweithredu Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg ac mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020. Mae'n dangos camau yr ydym wedi eu cymryd i gydymffurfio â'r Safonau ac mae'n cynnwys data y mae'n ofynnol i ni eu cyhoeddi.

Maes o welliant nodedig yw'r nifer gynyddol o weithwyr sydd wedi cwblhau asesiad sgiliau'r Gymraeg, mae bron i 100% o'n gweithwyr bellach wedi cwblhau'r asesiad. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu rheolwyr i gynllunio sut y gallant ddatblygu gweithlu i'w cefnogi i gyflwyno gwasanaethau dwyieithog. Roeddem yn falch o allu darparu cefnogaeth ariannol i Fenter Iaith Fflint a Wrecsam er mwyn cynyddu nifer y digwyddiadau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant, fe gynhaliwyd un yn Y Fflint a'r llall yng Nghei Connah. Roedd y digwyddiadau yma'n hwb i godi proffil y Gymraeg yn ein cymunedau gan atgyfnerthu hunaniaeth Gymreig.

Rydym yn cydnabod ein bod yn gwneud cynnydd, ond mae gwelliannau i'w gwneud o hyd. Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn cynyddu nifer y gweithwyr sydd yn nodi fod ganddynt rywfaint (lefel 1) o sgiliau Cymraeg, ac yn parhau i sicrhau bod ein gweithlu yn cydymffurfio â'r Safonau.

Colin Everett
Y Prif Weithredwr

Y Cyngorydd Billy Mullin
Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-20

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cyngor Sir y Fflint wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth ymgymryd â'i fusnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg yn adeiladu ar yr ymrwymiad hwn.
- 1.2 Nod y Safonau yw i
 - wella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn y Gymraeg
 - cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau Cymraeg.
 - ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran yr iaith Gymraeg.
 - sicrhau bod lefel briodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrf yn yr un sectorau.
- 1.3 Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiadau Cydymffurfio ar y Cyngor yn nodi'r 171 o Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy. Mae Hysbysiadau Cydymffurfio yn unigryw i bob sefydliad ac yn adlewyrchu proffil ieithyddol y gymuned leol a'r capasiti sefydliadol i ddiwallu'r Safonau. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg y pwerau i ymchwilio ac i gymryd camau yn erbyn y sefydliadau hynny sy'n methu cydymffurfio â'r Safonau. Mae hyn yn cynnwys gosod cosbau ariannol am ddiffyg cydymffurfedd.
- 1.4 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin fel y nodir yn Safonau 158, 164 a 170. Mae rhestr lawn o'r Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy ar gael [yma](#). Caiff yr adroddiad hwn ei dderbyn yn flynyddol hefyd gan Gabinet y Cyngor ar berfformiad mewn perthynas â'r Safonau. Bydd adroddiad canol blwyddyn ar feysydd o welliant hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.
Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.
- 1.5 Rydym wedi cyhoeddi rhestr o gamau rydym wedi eu cymryd i gydymffurfio â'r Safonau ar ein gwefan.
- 1.6 Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.

2. Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

- 2.1 I sicrhau fod yr holl weithwyr yn ymwybodol o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau rydym wedi bod yn cylchredeg gwybodaeth i reolwyr a gweithwyr yn rheolaidd. Gofynnwyd i reolwyr sicrhau fod eu Gwasanaethau yn cydymffurfio.
- 2.2 Mae canllawiau penodol wedi eu rhoi i weithwyr ynglŷn â:
- Threfnu cyfarfodydd a digwyddiadau
 - Brandio Corfforaethol
 - Ymgynghori ac ymchwil
 - Delio â galwadau ffôn
 - Delio â gohebiaeth
 - Cynhyrchu dogfennau, tystysgrifau ar gyfer y cyhoedd
 - Systemau cyfeiriad cyhoeddus
 - Gwasanaethau derbynfa
 - Llunio llofnodion e-bost
 - Arwyddion
 - Cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, peiriannau hunanwasanaeth
 - Tendrau a contractau
 - Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
 - Gwefan
- 2.3 Mae datganiadau safonol sy'n cynnig y cyfle i gwsmeriaid ohebu yn y Gymraeg wedi eu darparu i weithwyr, mae'r rhain wedi eu cynnwys ar benawdau llythyrau a dogfennau. Mae datganiad safonol yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg nawr wedi ei gynnwys fel troedyn ar negeseuon e-bost a gaiff eu hanfon yn allanol.
- 2.4 Mae posteri iaith Gwaith yn cael eu harddangos ymhob ardal dderbynfa, mae gweithwyr sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr Cymraeg yn gwisgo'r cordyn iaith Gwaith a/neu fathodynau. Gofynnir i weithwyr newydd sy'n siarad Cymraeg neu sy'n ddysgwyr Cymraeg am lefel eu sgiliau pan dynnir eu lluniau ar gyfer eu cardiau adnabod. Caiff bathodynau a chordyn iaith Gwaith eu darparu wedyn i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg.
- 2.5 Mae gwefan, Apiau a pheiriannau hunan-wasanaeth y Cyngor yn ddwyieithog a hefyd tudalen Twitter y Cyngor. Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor yn cynnwys gofyniad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- 2.6 Gofynnir i aelodau o'r cyhoedd sy'n gwneud cais am gyrsiau a gynhelir gan y Cyngor beth yw eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) i asesu'r angen i wersi gael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.7 Mae Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor yn ymgorffori Safonau'r Gymraeg, mae hyn yn atgoffa swyddogion comisiynu o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i sicrhau cydymffurfedd â'r Safonau. Mae cymalau enghreifftiol ar gyfer contractau wedi eu cyhoeddi ar y fewnwyd.

- 2.8 Mae Gweithdrefn Gwyno eisoes mewn grym ac wedi ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae cwynion am yr iaith Gymraeg wedi eu nodi yn adran chwech.
- 2.9 Mae rhwydwaith o arweinwyr dirprwyedig y Gymraeg, gydag aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o bortffolios y Cyngor, wedi ei sefydlu. Nod y grŵp hwn yw cefnogi'r iaith Gymraeg ar draws y Cyngor, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith gweithwyr, rhannu arfer da o fewn eu gwasanaeth a chyfrannu at fentrau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Caiff y rhwydwaith hwn ei gadeirio gan y Prif Swyddog dros Addysg ac Ieuenctid.
- 2.10 Rydym wedi llunio polisi Cymraeg yn y Gweithle er mwyn cynyddu amlygrwydd a hygrywedd y Gymraeg yn y gwaith, gan annog gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr yn ogystal â gyda chwsmeriaid.
- 2.11 Mae rhaglenni a chofnodion o gyfarfodydd Pwyllgorau ar gael yn y Gymraeg.

3. Cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi

- 3.1 Mae Fframwaith Asesu Effaith Integredig electronig sydd yn cynnwys yr iaith Gymraeg wedi cael ei lunio. Mae hwn nawr wedi'i gynnwys o fewn y system rheoli perfformiad corfforaethol i sicrhau y gellir monitro'r cynnydd o ran cwblhau asesiadau effaith integredig yn fwy effeithiol.
- 3.2 Mae Menter Iaith Fflint a Wrecsam yn mynychu Grŵp Budd-Ddeiliad yr Asesiad Effaith Integredig lle mae cynrychiolwyr pobl sydd â nodweddion a ddiogelir a siaradwyr Cymraeg yn cyfrannu at yr asesiadau effaith wrth iddynt gael eu gwneud.
- 3.3 Mae arweiniad ar ymgynghori ac ymchwil gan gynnwys yr iaith Gymraeg ar gael ar y fewnwyd. Mae hyn wedi cael ei hyrwyddo i weithwyr, yn ogystal â'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r Safonau Llunio Polisi.
- 3.4 Mae Cyfeiriadur Grwpiau yn darparu rhestr o sefydliadau y dylai rheolwyr ymgynghori â hwy pan maent yn datblygu ac yn diweddarau polisiâu presennol ar gael ar y fewnwyd. Mae'r Cyfeiriadur hwn yn cynnwys rhestr o sefydliadau sydd yn cynrychioli siaradwyr Cymraeg.

4. Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol

- 4.1 Cytunwyd ar Bolisi Cymraeg yn y Gweithle ac mae wedi ei gyhoeddi ar y fewnwyd – dyma bolisi'r Cyngor ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ac annog y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol.
- 4.2 Mae arwyddion newydd ac arwyddion wedi eu diweddarau yn y Gymraeg a'r Saesneg – mae'r Gymraeg wedi ei gosod uwchben neu i'r chwith o'r arwydd Saesneg. Mae'r holl arwyddion yn adeilad newydd y Cyngor "Tŷ Dewi Sant" yn gyfan gwbl ddwyieithog – mae'r Gymraeg wedi ei gosod fel y bydd yn cael ei ddarllen cyn y Saesneg. Mae adolygiad o adeiladau'r Cyngor yn mynd rhagddo i sicrhau fod yr holl arwyddion yn adeiladau'r Cyngor yn gyfan gwbl ddwyieithog.

- 4.3 Mae tudalen gyntaf mewnwyd y Cyngor nawr ar gael yn Gymraeg, a chaiff gweithwyr eu croesawu i rhagdudalen i weld y dudalen gyntaf naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae tudalen ddynodedig ar gael ar y fewnwyd i gefnogi siaradwyr Cymraeg.
- 4.4 Mae rheolwyr a gweithwyr wedi cael gwybod am y Safonau Gweithredol a hawliau gweithwyr.
- 4.5 Mae gweithwyr wedi cael gwybod eu hawliau i dderbyn busnes wedi ei gyfeirio yn bersonol atynt drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r wybodaeth hon wedi ei chofnodi ar iTrent (system rheoli adnoddau dynol) a gan reolwyr. Caiff hyn ei argraffu ar slipiau cyflog gweithwyr gan sicrhau fod y neges yn cyrraedd yr holl weithwyr ac yn cael ei chynnwys yn y rhestr wirio Sefydlu.
- 4.6 Gofynnir i weithwyr newydd ym mha iaith yr hoffent i'w contract gael ei ddarparu.
- 4.7 Mae dogfennaeth arfarnu wedi ei gyhoeddi ar y fewnwyd yn y Gymraeg. Mae gan weithwyr y dewis o gael cyfweiliadau/cyfarfodydd disgyblu yn y Gymraeg.
- 4.8 Mae Cysgliad (geiriadur, gwiriwr sillafu a gramadeg y Gymraeg) ar gael i weithwyr. Caiff hyn ei hyrwyddo yn y cyfarfod sefydlu a chaiff gweithwyr eu hatgoffa yn rheolaidd, drwy eitemau newyddion y gweithlu, y gallant wneud cais am Cysgliad.
- 4.9 Mae adnoddau i gefnogi dysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg ar gael ar y fewnwyd ar dudalen ddynodedig ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Caiff gweithgareddau a gynhelir yn y gymuned i gefnogi dysgwyr eu hyrwyddo i weithwyr i'w hannog i gymryd rhan.
- 4.10 Mae cyfarwyddiadau ar sut i osod iaith Gwaith ar lofnodion e-bost, cyfeiriadau e-bost dwyieithog a negeseuon dwyieithog sy'n nodi nad yw'r gweithiwr yn y swyddfa wedi ei cylchredeg i weithwyr. Gall gweithwyr hefyd ofyn am gael y geiriau "Siaradwr Cymraeg" neu "Dysgwr Cymraeg" ar ôl eu henw ar eu cyfeiriad e-bost, i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu ddysgwyr Cymraeg. Mae cortyn a bathodynau iaith Gwaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar gael ac mae dysgwyr Cymraeg wedi derbyn cortyn a bathodynau gyda "Dysgwr" arnynt.
- 4.11 Mae'r rhestr wirio Sefydlu yn cynnwys Safonau'r Gymraeg ac yn annog rheolwyr i sicrhau fod gweithwyr yn:
- cwblhau'r asesiad sgiliau iaith Gymraeg;
 - nodi'r angen am unrhyw hyfforddiant yn ymwneud â'r Gymraeg;
 - cwblhau'r modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg;
 - gallu cael mynediad at Cysgliad;
 - yn derbyn y bathodyn a'r cortyn iaith Gwaith os ydynt yn siarad Cymraeg neu'n ddysgwr;
 - yn gosod eu neges yn nodi nad ydynt yn y swyddfa yn ddwyieithog; ac yn
 - sefydlu cyfeiriad e-bost dwyieithog.

4.12 Caiff y polisiau canlynol eu cyhoeddi yn y Gymraeg:

- Polisi Rheoli Presenoldeb
- Manteision Gweithio i Gyngor Sir y Fflint
- Polisi Galluogrwydd
- Polisi Diogelu Corfforaethol
- Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb
- Ffurflen gais Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Oriau Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Maethu i Sir y Fflint
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle

Caiff ceisiadau am wyliau blynyddol ac absenoldeb salwch eu gwneud yn electronig, ac mae fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni cais ar gael.

Mae'r holl wybodaeth gan lechyd Galwedigaethol yn ddwyieithog.

4.13 Mae proses i asesu'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer swyddi newydd mewn grym. Mae dull o gofnodi'r nifer o swyddi sydd wedi eu hasesu fel dymunol neu hanfodol wedi cael ei ddatblygu. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgan y nifer o swyddi newydd a gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle:

- i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- ii) roedd angen dysgu Cymraeg yn dilyn penodi
- iii) roedd y Gymraeg yn ddymunol
- iv) nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol

Mae'r data ar gyfer 2019/2020 wedi eu nodi isod.

Categori				
i) Y Gymraeg yn hanfodol	17	8	14	2
ii) Angen dysgu Cymraeg yn dilyn penodi	0	0	0	0
iii) Y Gymraeg yn ddymunol	9	40	42	12
iv) Sgiliau'n ymwneud â'r Gymraeg ddim yn hanfodol	277	185	207	66
CYFANSWM	294	233	263	80

Rydym wrthi'n gweithio ar ein proses i asesu sgiliau iaith Gymraeg swyddi ac yn gosod gofynion sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer swyddi penodol.

4.14 Mae ffurflenni cais am swyddi wedi cael eu haddasu i ymgeiswyr nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad.

4.15 Rydym wedi asesu sgiliau Cymraeg gweithwyr (ac eithrio'r rhai a gyflogir gan ysgolion). Mae canlyniadau'r asesiad yn dangos bod 97.18% o weithwyr wedi cwblhau'r archwiliad. Byddwn yn parhau i gymryd camau i gynyddu'r nifer o

weithwyr sy'n cwblhau'r archwiliad hwn. Ceir dadansoddiad o'r gweithwyr sydd wedi cwblhau'r archwiliad yn Nhabl 1.

Tabl 1: Nifer a chanran o weithwyr sydd wedi cwblhau archwiliad sgiliau'r Gymraeg erbyn 31 Mawrth 2020.


Portffolio	% Cyflawniadau
Prif Weithredwyr	100.00%
Addysg ac leuenctid	88.03%
Llywodraethu	98.48%
Tai ac Asedau	100.00%
Pobl ac Adnoddau	100.00%
Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi	96.28%
Gwasanaethau Cymdeithasol	97.68%
Strydwedd a Chludiant	97.11%
Cyfanswm	97.18%

4.16 Mae'r canlyniadau o Dablau 2 a 3 yn nodi lefelau sgiliau ieithyddol Cymraeg gweithwyr. Mae'n dangos fod 38.18% o weithwyr yn dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg a dim ond 3.47% o weithwyr sydd yn dweud bod eu sgiliau yn lefel 5. Mae hyn yn gyson â phroffiliau blaenorol o sgiliau'r gweithlu. Er mwyn lleihau'r nifer a chanran o weithwyr sy'n nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, bydd cwblhau modiwlau e-ddysgu Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn rhan o'r cyfnod sefydlu ar gyfer gweithwyr newydd sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl. Bydd y modiwl e-ddysgu yn cael ei dreialu o fewn portffolio Addysg ac leuenctid a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym ni'n edrych ar ffyrdd o ddatblygu sgiliau gweithwyr i sicrhau eu bod yn datblygu i lefelau uwch.

Tabl 2: Nifer a chanran y gweithwyr a lefel sgiliau'r Gymraeg ar 31 Mawrth 2020.

Portffolio	Lefel 0		Lefel 1		Lefel 2		Lefel 3		Lefel 4		Lefel 5		Heb ei gofnodi	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Prif Weithredwyr	8	18.18%	14	31.82%	10	22.73%	4	9.09%	3	6.82%	5	11.36%	0	0.00%
Addysg ac leuenctid	48	20.51%	86	36.75%	36	15.38%	11	4.70%	13	5.56%	12	5.13%	28	11.97%
Llywodraethu	58	29.29%	85	42.93%	29	14.65%	6	3.03%	9	4.55%	8	4.04%	3	1.52%
Tai ac Asedau	135	40.66%	130	39.16%	34	10.24%	12	3.61%	13	3.92%	8	2.41%	0	0.00%
Pobl ac Adnoddau	43	23.63%	77	42.31%	35	19.23%	9	4.95%	13	7.14%	5	2.75%	0	0.00%
Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi	50	26.60%	71	37.77%	28	14.89%	8	4.26%	15	7.98%	9	4.79%	7	3.72%
Gwasanaethau Cymdeithasol	430	41.55%	326	31.50%	156	15.07%	34	3.29%	28	2.71%	37	3.57%	24	2.32%
Strydwedd a Chludiant	284	51.36%	174	31.46%	48	8.68%	10	1.81%	9	1.63%	12	2.17%	16	2.89%
Cyfanswm	1056	38.18%	963	34.82%	376	13.59%	94	3.40%	103	3.72%	96	3.47%	78	2.82%

Tabl 3: Tuedd sgiliau Cymraeg gweithwyr ar 31 Mawrth 206, 2017, 2018, 2019 ac 2020.



5. Hyfforddiant

5.1 Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer gweithwyr. Caiff hwn ei ddarparu fel modiwl e-ddysgu. Yn ystod 2019/20, fe gwblhaodd 151 o weithwyr yr hyfforddiant o'i gymharu â 283 o weithwyr yn 2018/19. Yn ychwanegol mae hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg ar gael i weithwyr. Mae hwn wedi ei nodi yn Adran 5.3.

5.2 Mae'n ofynnol i ni adrodd:

i) nifer y gweithwyr a fynychodd gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Nifer y gweithwyr a ofynnodd am hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2019/20.

ii) a gynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs – y nifer a % y gweithwyr a fynychodd y fersiwn Gymraeg.

Mae yna wybodaeth ar dudalennau mewnwyd y Cyngor i ddweud wrth weithwyr os ydynt yn dymuno gwneud unrhyw rai o'r cyrsiau yn Gymraeg i gysylltu â'r Tîm Dysgu a Datblygu Corfforaethol. Mae gan y Cyngor gytundeb

anffurfiol gyda Chyngor Gwynedd fod gweithwyr yn mynychu eu cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Mae nifer y gweithwyr sydd yn mynychu cyrsiau penodol yn y Gymraeg wedi ei nodi isod:

Teitl y Cwrs	Nifer y gweithwyr a fynychodd hyfforddiant yn Gymraeg
Recriwtio a chyfweld	0
Rheoli Perfformiad	0
Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu	0
Hyfforddiant Sefydlu	0
Delio â'r Cyhoedd	0
Iechyd a Diogelwch	0

5.3 Hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg

Caiff amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi yn ymwneud â'r Gymraeg eu darparu. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau byr ar gyfer gweithwyr sydd heb unrhyw ddealltwriaeth o'r Gymraeg i'w helpu i ddysgu ymadroddion sylfaenol a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg rhugl i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau ysgrifennu. Roedd yna ostyngiad yn nifer y gweithwyr a fynychodd hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg yn ystod 2019/20; mae 57 nawr yn mynychu hyfforddiant.

Tabl 4: Nifer y gweithwyr sydd yn mynychu hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg

Lefel	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer
Sgiliau leithyddol Sylfaenol	62	48	1	15
Mynediad	34	50	34	22
Sylfaenol	20	7	12	6
Canolradd	12	23	3	2
Uwch	2	1	9	7
Rhugl	3	10	5	5
Cyfanswm	133	139	64	57

5.4 Yn y blynyddoedd blaenorol mae prentisiaid wedi cwblhau cwrs dysgu

Cymraeg yn rhan o'u fframwaith. Fodd bynnag, mae presenoldeb wythnosol y prentis yn y coleg wedi lleihau i unwaith bob pythefnos ac felly mae hyn wedi effeithio ar gyfanswm ffigurau dysgu yn gyffredinol gan na fu modd i brentisiaid gwblhau dysgu Cymraeg.

5.5. I annog y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle:

- mae gweithwyr sydd yn mynychu gwersi Cymraeg hefyd yn derbyn geiriadur yn ogystal â mynediad at Cysgliad
- gofynnwyd i ddarparwyr hyfforddiant ddarparu sleidiau dwyieithog o fewn eu cyflwyniadau megis Croeso/Welcome, Diolch/Thank you.
- mae rheolwyr wedi cael dalen-nodyn sydd ag enghreifftiau o ymadroddion i'w defnyddio mewn cyfarfodydd.

- caiff ymadroddion i'w defnyddio mewn siopau a chaffis ar dir y Cyngor eu hyrwyddo yn ystod Diwrnod Su'mae.
- Dechreuodd a gorffennodd rheolwyr pob cyfarfod ar Ddiwrnod Su'mae.
- Mae posteri "Welsh on the Wall" wedi eu dosbarthu i swyddfeydd y Cyngor ac wedi eu gosod ar waliau uwchben peiriannau llungopïo i annog gweithwyr i ddysgu ymadroddion defnyddiol.
- Caiff sesiynau paned a sgwrs eu cynnal yn fisol ar gyfer dysgwyr Cymraeg mewn lleoliadau gwahanol; caiff y rhain eu hyrwyddo a'u cefnogi gan weithwyr sy'n siarad Cymraeg.

Mae rhai timau yn cefnogi eu gilydd i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg, er enghraifft, mae siaradwyr Cymraeg yn y Tîm Canolfan Gyswilt yn defnyddio'r Gymraeg gyda rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ac yn eu hannog i ddweud ychydig eiriau bob dydd.

- 5.6 Wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor bellach wedi cofrestru ar gyfer modiwlau e-ddysgu cwrs "Blasu" a "Chroeso Nôl" [Cymraeg Gwaith](#). Rydym ni'n treialu hyn mewn portffolios gwahanol, mae 16 o weithwyr wedi cofrestru ar gyfer y cwrs yma'n ystod 2019/20. Byddwn yn adrodd ar gyfraddau cwblhau o 2021 ymlaen.

6. Cwynion

- 6.1 Yn ystod 2019/20 fe dderbyniom dau gŵyn o'i gymharu â chwech o gwynion yn ystod 2018/19. Mae Adroddiad Monitro Blynnyddol 2019/20 y Gymraeg yn egluro bod Comisiynydd y Gymraeg yn ymchwilio i'r ddwy gŵyn. Mae'r Comisiynydd erbyn hyn wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi torri Safonau'r Gymraeg gan fod contractwr wedi methu â chydymffurfio. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi hysbysiad yn gofyn i ni gymryd camau gweithredu penodol, gan gynnwys:

- Darparu hyfforddiant i'r contractwr
- Sicrhau bod y contractwr yn diwygio'i wefan fel bod y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg
- Sicrhau bod y contractwr yn ymateb i ohebiaeth Cymraeg gan gwsmeriaid yn Gymraeg

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a disgwylir cwblhau'r camau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2020 pan fydd arnom ni angen cyflwyno tystiolaeth i'r Comisiynydd bod y camau wedi'u cyflawni.

- 6.2 Mae dadansoddiad o'r cwynion isod

Dosbarth Safon	Nifer y cwynion
Gweithredol	0
Cyflenwi gwasanaeth	2
Llunio polisi	0
Hyrwyddo	0

Mae'r cwynion ar gyfer 2019/20 wedi eu nodi isod ac yn ymwneud â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth.

Cwynion Cyflenwi Gwasanaeth	Canlyniad
Y Gymraeg ddim yn gyfartal â'r Saesneg ar ddeunydd hyrwyddo a gyhoeddwyd	Gwybodaeth wedi'i gywiro a deunydd hyrwyddo wedi ei gynllunio at y dyfodol wedi cael ei ddiweddarau. Egluro'r broses gyda'r Gwasanaeth Cyfieithu i sicrhau nad yw unrhyw ddiwygiadau gan y cyfieithydd yn y dyfodol yn cael eu methu. Penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg beidio â bwrw ymlaen ag ymchwiliad gan ein bod wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater i'w atal rhag digwydd yn y dyfodol.
Anfonwyd gohebiaeth yn Saesneg ac nid yn y Gymraeg.	Ni ymchwiliodd Comisiynydd y Gymraeg i'r mater gan fod y llythyr wedi ei anfon ar ran y Swyddog Canlyniadau. Nid yw'r Swyddog yn destun dyletswyddau iaith statudol ac felly ni all y Comisiynydd ymchwilio.

7. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg

- 7.1 Rydym wedi llunio a chyhoeddi strategaeth i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws y Sir ac i osod targedau ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn cefnogi **cynnydd** yn y lefel bresennol o siaradwyr Cymraeg, o 13.2%/ (19,343 o bobl) yn y sir i 21,891 (15% o bobl) yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn gyfystyr â thua 2548 o siaradwyr Cymraeg (dros dair oed) dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn ystyried y cynnydd mewn plant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg fel y nodwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ogystal â chynnydd yn y nifer o oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Ein gweledigaeth yn y tymor hirach, ar ôl 2024 yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan greu sir ddwyieithog lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd.

Mae [Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg](#) a [Fframwaith Mwy na Geiriau](#) Llywodraeth Cymru yn strategaethau allweddol i gefnogi ein gwaith i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

7.2 Hyrwyddo'r Gymraeg i fusnesau lleol ac yn y gymuned

Mae Menter Iaith wedi derbyn cyllid ychwanegol i gefnogi datblygu Fforymau Iaith Gymraeg. Yn ogystal, fe wnaethom ni ddarparu cefnogaeth ariannol, yn cynnwys cyllid gan y Tîm Datblygu Busnes, a chael gafael ar grant drwy Gronfa Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda chymunedau lleol.

7.3 Cynhaliwyd dau ddigwyddiad, un yn y Fflint a'r llall yng Nghei Connah, cafwyd perfformiadau gan blant ysgol lleol yn y ddau ddigwyddiad. Cafodd ardaloedd derbynfa'r Cyngor eu haddurno a bu llyfrgelloedd lleol yn addurno ardaloedd cyhoeddus gyda chennin pedr a byntin. Cymerodd siopau lleol ran drwy gystadlu yng nghystadleuaeth addurno ffenestri Dydd Gŵyl Dewi.

7.4 Yn ardaloedd Cei Connah a Shotton o Sir y Fflint, derbyniodd Menter Iaith gefnogaeth gyda chyllid trwy'r Tim Datblygu Busnes a'r grant Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i: gynnal dathliad sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn hyrwyddo a dathlu diwylliant Cymru a'i hiaith.

- cyflwyno diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg i aelodau o'r gymuned nad ydynt yn clywed neu'n gweld yr iaith a'r diwylliant o ddydd i ddydd.
- hyrwyddo manteision yr iaith Gymraeg i ysgolion/busnesau a chysylltiadau eraill.
- creu ymdeimlad o berthyn a chymuned.

Mynychodd saith ysgol y digwyddiad yma a gynhaliwyd yn y Neuadd Ddinesig lleol, a pherfformiodd pawb o flaen teuluoedd ac aelod o'r cyhoedd. Daeth tua 80 aelod o'r cyhoedd i'r dathliad.

7.5 Cododd y digwyddiadau yn Fflint a Chei Connah ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ymysg yr ysgolion, rhieni, busnesau lleol a'r gymuned gyfan. Mae'n dangos mai nid iaith ar gyfer yr ystafell ddosbarth neu iaith gwaith yn unig yw'r Gymraeg, ond iaith sydd yn hygyrch i bawb ac yn weladwy yn y gymuned. Trwy ddod â chymunedau at ei gilydd fel hyn, crëwyd ymdeimlad o berthyn ac mae'n atgyfnerthu'r neges fod y Gymraeg a diwylliant Cymru yn perthyn i bawb, boed nhw'n siarad yr iaith neu beidio. Rydym ni'n falch fod y Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol wedi gweithio gyda Menter Iaith i annog siopau Dwyrain Ewrop i gymryd rhan yn y gystadleuaeth addurno ffenestri.

7.6 Canlyniadau ychwanegol yn sgil y digwyddiadau yma yw cysylltiadau a grëwyd rhwng Cynghorau Tref a Menter Iaith a grwpiau cymunedol lleol a Menter Iaith. Er enghraifft, mae Cyngor Tref Cei Connah wedi gofyn i Menter Iaith weithio gyda nhw i gyflwyno mwy o Gymraeg yng Ngŵyl Cei ym mis Mehefin h.y. i gydlynu cyhoeddiadau dwyieithog a gweithio gyda Dee Radio i gynnig y gwasanaeth yma. Mae'r Cyngor Tref wedi gwahodd Menter Iaith i fynychu digwyddiadau y maen nhw'n eu trefnu i hyrwyddo gwaith Menter Iaith ac i rannu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg, er enghraifft mewn ffeiriau Nadolig. Mae Cyngor Tref Shotton hefyd yn awyddus i weithio gyda Menter Iaith. Yn ogystal, mae eglwys gymunedol leol yn y Fflint, Eglwys Gymunedol Afon Dyfrdwy, sydd yn cynnal digwyddiadau i bobl leol a ffoaduriaid, bellach yn gweithio gyda Menter Iaith i ddechrau cynnwys gweithgareddau Gymraeg yn eu rhaglen.

7.7 Ar ddiwrnod Su'mae a Diwrnod Santes Dwynwen fe aethom ati i arddangos posteri ar sgriniau teledu yn Sir y Fflint yn Cysylltu ac mewn Canolfannau Hamdden i annog pobl i ddweud rhywbeth yn Gymraeg. Cefnogwyd hyn gan negeseuon a gyhoeddwyd ar Twitter. Fe wnaethom gymryd rhan yn Niwrnod Hawliau'r Gymraeg ym mis Rhagfyr, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth o

wasanaethau Cymraeg rydym yn eu cynnig a rhoi gwybod i bobl am eu hawliau i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

7.8 Comisiynydd Theatr Clwyd gynhyrchiad o “Terfysg yr Wyddgrug” a gafodd ei pherfformio yn nhref Yr Wyddgrug gyda chast cymunedol o 100 ac actorion proffesiynol, i nodi 150 mlynedd ers y terfysg pan fu farw pedwar person. Defnyddiwyd cymysgedd o Gymraeg a Saesneg yn y cynhyrchiad oedd yn adrodd hanes Terfysg yr Wyddgrug yn 1869 pan wrthododd perchennog y pyllau glo hawl i’w weithwyr siarad Cymraeg yn y pwll a thorri cyflogau, gan arwain at y terfysgoedd. Cafodd nifer o grwpiau cymunedol a gweithdai eu cynnal gan gynnwys gweithdai celfyddydau gweledol Cymraeg. Cynhaliwyd dosbarthiadau Cymraeg wythnosol i aelodau o’r cast oedd eisiau dysgu Cymraeg i ddweud yr hanes.

7.9 Yn ychwanegol mae Theatr Clwyd wedi:

- cyd-gynhyrchu ‘Y Trol Nath Ddwyn Nadolig’, eu hail gynhyrchiad Nadolig Gymraeg gyda Phontio, Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi Prifysgol Bangor.
- wedi cynnal gwersi Cymraeg gyda Company 25 (grŵp drama) i bobl ifanc rhwng 17-25 oed, cyn eu grŵp drama wythnosol.
- wedi cynnal sesiynau Stori a Chân mewn partneriaeth gyda Cymraeg i Blant ar gyfer rhieni a’u babanod.
- wedi llunio prosiect peilot Parkinson’s dwyieithog, gan weithio gyda Parkinson’s UK, gan ddefnyddio dawn, cerddoriaeth a drama i bobl sy’n byw gyda Parkinson’s.

7.10 Mae’r Theatr wedi parhau i gynnwys ffilmiau, cynyrchiadau, cyngherddau a gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog yn ei raglen.

7.11 Rydym wedi darparu cyllid i Menter Iaith i gefnogi prosiect cymunedol dwyieithog. Fe sefydlwyd dau brosiect:

“Estyn Croeso” yn Nhreuddyn – Nod y grŵp yw dod â’r hen a’r ifanc ynghyd i rannu’r Gymraeg. Roedd eu digwyddiadau yn cynnwys Prynawn o Hwyl i’r Teulu yn Neuadd Bentref Treuddyn er mwyn hyrwyddo’r Gymraeg a dod â’r gymuned ynghyd, a digwyddiad Te Prynawn i roi cyfle i bobl hŷn o’r pentref i gymdeithasu gyda rhieni a phlant.

Grŵp Gweithredu yn y Gymuned Licswm – fe wnaethant ymuno â gweithgareddau Estyn Croeso, roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys mynychu Gŵyl Fwyd Yr Wyddgrug ble buont yn gofyn i’r rhai oedd yn bresennol i ddyfalu enwau Cymraeg ar lefydd yn Sir y Fflint.

8. Gweithredu yn y Dyfodol

8.1 Wrth symud ymlaen yn ystod 2020/21 fe fyddwn yn parhau i atgoffa a chefnogi gweithwyr a rheolwyr o ran eu cyfrifoldebau i ddiwallu Safonau’r Gymraeg. Fe fyddwn yn gweithio gyda’n partneriaid i’w hannog nhw i

hyrwyddo'r Gymraeg, a thrwy hynny cynyddu amlygrwydd a hygrywedd y Gymraeg.

- 8.2 Yn ystod y 12 mis nesaf, fe fyddwn yn parhau i ganolbwyntio ar:
- sicrhau fod 100% o weithwyr yn cwblhau archwiliad sgiliau'r Gymraeg erbyn mis Mawrth 2021;
 - cynyddu'r nifer o weithwyr sydd yn cwblhau modiwlau e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg erbyn mis Mawrth 2021;
 - adolygu'r broses recriwtio a dethol er mwyn cynyddu'r nifer o ymgeiswyr am swyddi sydd yn siarad Cymraeg erbyn mis Mawrth 2021 a sicrhau fod yr holl ymgeiswyr a gweithwyr newydd yn deall ymrwymiad y Cyngor tuag at yr iaith Gymraeg a darparu gwasanaethau dwyieithog;
 - lleihau nifer y gweithwyr nad ydynt yn meddu ar unrhyw sgiliau Cymraeg i 25% erbyn mis Mawrth 2021; a
 - chodi proffil y Gymraeg yn y gweithle ac yn y gymuned.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni:

Rhif ffôn: 📞 01352 702131

e-bost: 📧 corporatebusiness@flintshire.gov.uk

Atodiad 1 PECYN HUNANASESIAD SGILIAU IAITH GYMRAEG

	GWRANDO/SIARAD	DARLLEN/DEALL	YSGRIFENNU
LEFEL 0	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim gallu
LEVEL 1	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ynganu geiriau Cymraeg, enwau llefydd, enwau adrannau ac ati. • Cyfarch a deall cyfarchiad. • Defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd elfennol, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi ac ati. • Deall / trosglwyddo ceisiadau llafar syml arferol / cyfarwydd / amlwg drwy ddefnyddio iaith syml, e.e. 'Alla i siarad â...' • Mynegi ceisiadau syml a dilyn hynny gyda chwestiynau / ceisiadau ychwanegol mewn modd syml 	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddeall geiriau a brawddegau allweddol ar faterion cyfarwydd/amlwg sy'n gysylltiedig â'm maes fy hun, e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau. 	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg ac ati.
LEFEL 2	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddeall hanfod sgwrsiau Cymraeg yn y gwaith • Ymateb i geisiadau syml sy'n ymwneud â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol • Gofyn cwestiynau syml a deall atebion syml • Mynegi barn yn gyfyngedig cyn belled â bo'r pwnc yn gyfarwydd • Deall cyfarwyddiadau mewn iaith syml 	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddeall gwybodaeth ffeithiol, arferol a hanfod gwybodaeth anarferol ar faterion cyfarwydd sy'n gysylltiedig â'm maes gwaith fy hun, e.e. mewn llythyrau safonol, tafenni ac ati. 	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu nodiadau / llythyrau / negeseuon byr a syml ar ystod gyfyngedig o bynciau amlwg sy'n gysylltiedig â'm profiadau personol fy hun neu fy maes gwaith
LEFEL 3	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddeall llawer o'r hyn sy'n cael ei ddweud mewn swyddfa, cyfarfod ac ati. • Cynnal sgwrs syml mewn pwnc sy'n gysylltiedig â'r gwaith, ond o bosibl angen troi'n ôl i'r Saesneg i drafod / adrodd ar wybodaeth gymhleth neu dechnegol • Ateb cwestiynau amlwg neu ffeithiol • Cymryd a throsglwyddo'r rhan fwyaf o negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw • Cynnig cyngor ar faterion syml sy'n gysylltiedig â materion sy'n gysylltiedig â'r swydd 	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sganio testunau i gael yr wybodaeth berthnasol • Deall amrywiaeth eithaf da o ohebiaeth arferol ac anarferol sy'n gysylltiedig â'r swydd, llenyddiaeth ffeithiol ac ati pan fod iaith safonol yn cael ei ddefnyddio. 	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyr manwl/disgrifiadol sy'n gysylltiedig â fy maes gwaith i, ond bydd angen i Gymro Cymraeg ei wirio • Gwneud nodiadau cymharol gywir pan fo rhywun yn siarad
LEFEL 4	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gynnal sgwrs estynedig am dipyn o bopeth yn ymwneud â gwaith neu roi cyflwyniad yn gymharol rhugl gan allu eich mynegi eich hun yn eithaf eang ond efallai y byddai angen troi at y Saesneg i ateb cwestiynau annisgwyl neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol. • Cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd a seminarau yn fy maes gwaith fy hun • Dadlau dros / yn erbyn achos 	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddarllen a deall gwybodaeth yn eithaf cyflym os nad oes geirfa anarferol yn cael ei defnyddio ac os nad yw'r wybodaeth yn benodol gymhleth neu dechnegol. 	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Baratoi llythyrau ffurfiol o nifer o fathau cyfarwydd fel ymholiad, cwyn a chais • Cymryd cofnodion gweddol gywir mewn cyfarfydd neu arddyweddiad syml • Ysgrifennu adroddiad /dogfen sy'n gysylltiedig â fy maes gwaith i, ond bydd angen i Gymro ei wirio
LEFEL 5	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gyngori ar / siarad am faterion arferol, anarferol, cymhleth, dadleuol neu sensitif sy'n gysylltiedig â'm profiadau i • Rhoi cyflwyniad / arddangosiad • Delio'n hyderus â chwestiynau gelyniaethus neu nas rhagwelwyd • Negydu gan ddefnyddio termau cymhleth / technegol • Rhoi cyfweiliadau i'r cyfryngau 	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddeall syniadau a gwybodaeth a fynegir mewn iaith gymhleth neu arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau ac erthyglau ac ati 	<p style="text-align: center;">Gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc • Ysgrifennu nodiadau llawn / manwl gywir o gyfarfodydd tra'n parhau i ddilyn trafodaethau a chymryd rhan ynddynt • Ysgrifennu adroddiadau / dogfennau yn hyderus ond gall fod angen eu gwirio am gân wallau sillafu a gramadeg

Arfer Da

- Mae Theatr Clwyd yn cynnwys ffilmiau, cynyrchiadau, cyngherddau a gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog yn ei raglen. Maent wedi creu awyrgylch dwyieithog gan sicrhau fod yr holl arwyddion a labeli yn eu caffî'n ddwyieithog.
- Cafodd hyrwyddo'r Gymraeg ei gynnwys ym manylion grant Cronfa Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol.
- Cefnogodd Tîm Busnes y Cyngor Menter Iaith Fflint a Wrecsam gyda gweithgareddau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Bu'r Tîm Busnes yn gweithio gyda busnesau i'w hannog i hybu cynnyrch Cymreig a chymryd rhan yn Niwrnod Miwsig Cymru lle y bo'n bosibl, yn ogystal â Dydd Gŵyl Dewi.
- Paned a Sgwrs yw'r grwpiau siarad Cymraeg wythnosol ar gyfer dysgwyr Cymraeg ac i siaradwyr Cymraeg sydd wedi colli hyder i siarad Cymraeg neu sydd heb ddefnyddio'r iaith ers gadael ysgol. Cânt eu hwyluso gan ein gweithwyr sy'n siarad Cymraeg er mwyn cefnogi eu cydweithwyr i ymarfer mewn amgylchedd diogel. Mae'r rhain yn cael eu cynnal dros fideo gynadledda ar hyn o bryd er mwyn dilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol.
- Mae'r Tîm Canolfan Gyswilt yn cefnogi eu gilydd i ymarfer a defnyddio eu sgiliau Cymraeg fel bod pawb yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn ystod y dydd.